**Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref ATISN 11534

4 Hydref 2017

Annwyl ,

**ATISN 11534 - Data am berfformiad ysgolion**

Diolch am eich e-bost, dyddiedig 6 Medi, yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Gofynnoch am ddiweddariad i'r wybodaeth a ryddhawyd mewn ymateb i ATISN 9767, i gynnwys data Ionawr 2016 a 2017 ar gyfer awdurdodau lleol yn unig.

Rwyf wedi penderfynu na ddylid datgelu'r holl wybodaeth, yn unol ag adran 40(2) ('personal information') o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac felly mae rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i dal yn ôl. Mae'r rhesymau dros eithrio'r wybodaeth hon wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad 1 y llythyr hwn.

Mae'r wybodaeth yr wyf yn ei rhyddhau i'w gweld yn Atodiad 2.

Mae'r nodiadau canlynol yn berthnasol i ddata'r atodiadau.

**Nodiadau**
**Mae "*" yn cyfeirio at eitem ddata sydd wedi'i chelu gan y gallai'r niferoedd bach dan sylw olygu bod gwybodaeth yn cael ei datgelu.**

Os byddwch yn anfodlon â sut mae Llywodraeth Cymru wedi delio â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid anfon ceisiadau am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ

neu drwy e-bost at: FreedomofInformationOfficer@wales.gsi.gov.uk

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Fodd bynnag, cofiwch na fydd y Comisiynydd yn ymchwilio i gŵyn fel rheol hyd nes y bydd wedi mynd drwy ein proses adolygu fewnol ni.  Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF

Mae eich cais yn cynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch chi - eich enw a'ch cyfeiriad  er enghraifft.  Byddaf ond yn defnyddio'r wybodaeth bersonol hon yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 i ymdrin â'ch cais ac unrhyw faterion sy'n codi yn ei sgil.  Byddaf yn cadw eich gwybodaeth bersonol ac unrhyw wybodaeth arall yn ymwneud â'ch cais am dair blynedd ar ôl y dyddiad y caiff eich cais ei gau'n derfynol.  Wedyn byddaf yn cael gwared ar eich gwybodaeth bersonol mewn modd diogel.

Rhestrir unrhyw wybodaeth a ryddheir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yng Nghofnod Datgeliadau Llywodraeth Cymru (yn http://wales.gov.uk/about/foi/responses/?lang=cy).

Yn gywir,

Atodiad 1

Rwyf wedi penderfynu dal yr wybodaeth ganlynol yn ôl:

| Yr wybodaeth sy'n cael ei chadw yn ôl | Rhif yr adran ac enw'r eithriad |
|---|---|
| Rhuglder yn y Gymraeg lle mae naill ai lai na 5 unigolyn yn y categori, neu gategori o fwy na 5 disgybl lle byddai datgelu'r data hyn yn golygu bod modd tynnu allan wybodaeth am gelloedd sy'n llai na 5. | Adran 40(2) Personal information |

Mae adran 40 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn nodi nad oes rhaid rhannu gwybodaeth y gofynnir amdani os yw'n wybodaeth bersonol a ddiogelir gan Ddeddf Diogelu Data 1998. Yn adran 1(1) o'r Ddeddf Diogelu Data, diffinnir data personol fel hyn:

"*personal data" means data which relates to a living individual who can be identified from those data; or from those data and other information which is in the possession of, or is likely to come into the possession of, the data controller*".

Rydym wedi dod i'r casgliad bod yr wybodaeth am ganlyniadau arholiadau yn ôl pwnc, yn yr achos hwn, yn gyfystyr â data personol trydydd parti.

Yn unol ag Adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, nid oes rhaid rhyddhau data personol os bydd hynny yn golygu torri unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data. Yn ein barn ni, yr egwyddor gyntaf yw'r fwyaf perthnasol yn yr achos hwn.

**Yr egwyddor diogelu data gyntaf.**
Mae'r egwyddor yn datgan:
*Personal data shall be processed fairly and lawfully and, in particular, shall not be processed unless -*
*(a) at least one of the conditions in Schedule 2 is met, and (b) in the case of sensitive personal data, at least one of the conditions in Schedule 3 is also met.*

Rydym o'r farn bod yr wybodaeth dan sylw yn gydnaws â disgrifiad y Ddeddf Diogelu Data o ddata personol, ac y byddai ei datgelu yn torri'r egwyddor diogelu data gyntaf.

Mae dwy elfen i'r egwyddor diogelu data gyntaf:
1 Caiff data personol eu prosesu'n deg ac yn gyfreithlon
2. Ni chaiff data personol eu prosesu oni bai bod o leiaf un o'r amodau yn Atodlen 2 i'r Ddeddf Diogelu Data wedi'i chyflawni

Mae canllawiau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Personal information (section 40 and regulation 13) v1.4) (Saesneg yn unig) yn datgan:

*If disclosure would not be fair, then the information is exempt from disclosure.*

Cafodd y dull hwn ei gymeradwyo gan y Llys Apêl yn achos Deborah Clark yn erbyn y Comisiynydd Gwybodaeth ac East Hertfordshire District Council pan ystyriwyd:

*"The first data protection principle entails a consideration of whether it would be fair to disclose the personal data in all the circumstances. The Commissioner determined that it would not be fair to disclose the requested information and thus the first data protection principle would be breached. There was no need in the present case therefore to consider*

*whether any other Schedule 2 condition or conditions could be met because even if such conditions could be established, it would still not be possible to disclose the personal data without breaching the DPA" (paragraff 63).*
Gweler isod ein dadansoddiad o brif ystyriaethau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wrth asesu 'tegwch', fel y mae'r Canllawiau yn eu nodi.

- *Whether the information is sensitive personal data and the possible consequences of disclosure on the individual ;*

  Rydym o'r farn y gallai rhyddhau niferoedd bach (a allai fod cyn lleied ag 1), o'u cymryd ochr yn ochr â gwybodaeth arall y gellid tybio'n rhesymol ei bod ar gael, arwain at ddatgelu data personol am rugldер disgyblion unigol yn y Gymraeg. I'r perwyl hwnnw, rydym o'r farn bod yr wybodaeth yn gydnaws â disgrifiad y Ddeddf Diogelu Data o ddata personol.

  Gallai fod yn annheg datgelu gwybodaeth sy'n golygu bod modd gwybod pa mor rhugl y mae unigolyn, yn enwedig pan allai hynny gael ei ddefnyddio i wneud dyfarniad am y disgybl. At ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unig y caiff yr wybodaeth ei chasglu.

  Caiff ein rheolau rheoli datgeliadau eu pennu yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Hwn yw'r Cod statudol a gyhoeddwyd o dan adran 10 o Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 sy'n berthnasol i holl ystadegau swyddogol y DU (gan gynnwys yr Ystadegau Gwladol). Mae Egwyddor 5 Arfer 1 y Cod yn nodi "Ensure that official statistics do not reveal the identity of an individual or organisation, or any private information relating to them, taking into account other relevant sources of information." Rydym o'r farn bod gosod trothwy datgelu o 5 unigolyn yn sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng egwyddorion tryloywder ac atebolrwydd y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n dyletswyddau o dan y Ddeddf Diogelu Data a'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol er mwyn diogelu cyfrinachedd unigolion.

- *The reasonable expectations of the individual, taking into account: their expectations both at the time the information was collected and at the time of the request; the nature of the information itself; the circumstances in which the information was obtained; whether the information has been or remains in the public domain; and the FOIA principles of transparency and accountability;*

  Nid yw'r wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd. Yn yr hysbysiad prosesu teg a roddir i rieni, rydym yn addo defnyddio gwybodaeth bersonol at ddibenion ymchwil (mewn ffordd sy'n sicrhau nad oes modd dyfalu pwy yw'r plant a'r bobl ifanc) ac ystadegol, er mwyn llywio polisi addysg, dylanwadu arno a'i wella, ac er mwyn monitro perfformiad y gwasanaeth addysg drwyddi draw. Rydym o'r farn bod unigolion yn disgwyl i'r wybodaeth rydym yn ei chadw amdanynt gael ei diogelu ac na chaiff ei rhyddhau mewn ffordd sy'n golygu y gallai rhywrai ddyfalu am bwy y mae'n sôn.

- *Whether there is any legitimate interest in the public or the requester having access to the information and the balance between this and the rights and freedoms of the individuals who are the data subjects*.

  Nid ydym o'r farn bod yna fudd cyhoeddus cyfreithlon o gwbl i rannu'r wybodaeth hon, o gydbwyso hynny â'r addewidion rydym wedi'u gwneud ynghylch ein defnydd o'r data yn yr hysbysiad prosesu teg a'n dyletswyddau i ddiogelu cyfrinachedd. Mae amrywiaeth eang o wybodaeth ar gael o ffynonellau eraill i ddefnyddwyr sydd â

diddordeb mewn data am y Gymraeg, gan gynnwys y cyfrifiad o'r boblogaeth a'r Arolwg Defnydd Iaith.

O'r herwydd, rydym o'r farn na fyddai'n deg rhyddhau'r wybodaeth hon ac, o ganlyniad, dorri'r egwyddor diogelu data gyntaf. Gan hynny, caiff yr wybodaeth hon ei dal yn ôl o dan Adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae hwn yn esemptiad absoliwt ac nid yw'n destun prawf lles y cyhoedd.